

WE ARE
MACMILLAN.
CANCER SUPPORT

'SYLWAIS AR
SMOTIAU O WAED
YN Y TOILED
FELLY ES I WELD
Y MEDDYG AR
UNWAITH.'

John



Canser y coluddyn yw'r trydydd canser mwyaf cyffredin yn y Deyrnas Unedig. Gall effeithio ar ddynion a menywod. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cael canser y coluddyn dros 50 oed.

Gallai gwybod pa newidiadau i gadw golwg arnynt a phryd i fynd i weld meddyg wneud gwahaniaeth mawr. Peidiwch â mynd i boeni os yw'r symptomau hyn gennyh - ewch i weld rhywun.

Ewch i weld eich meddyg os ydych yn profi unrhyw rai o'r symptomau hyn:

- Gwaed yn eich pŵ (ysgarthion) am dair wythnos neu fwy.
- Dolur rhydd sy'n para am dair wythnos neu fwy.
- Poen neu lwmp yn eich bol neu dwll y pen ôl (rectwm).
- Teimlo nad ydych wedi gwagio'ch perfedd yn llwyr ar ôl mynd i'r tŷ bach.
- Colli pwysau am ddim rheswm amlwg.
- Teimlo'n fwy blinedig na'r arfer am amser hir.

Serch hynny, ni fydd gan y rhan fwyaf o bobl sy'n cael y symptomau hyn ganser y coluddyn - gall pethau eraill eu hachosi. Ond peidiwch â cheisio diagnosis'ch hun – ewch i weld eich meddyg. Os oes gennyh ganser, gorau po gyntaf y caiff ei ganfod fel y gellir ei drin yn llwyddiannus.

Dydych chi ddim yn gwastraffu amser eich meddyg os ydych chi'n gofyn iddo archwilio'ch symptomau.

Y cynharaf y canfyddir y canser, y mwyaf tebygol y bydd y driniaeth yn llwyddiannus.

Os oes angen cefnogaeth arnoch neu efallai sgwrs â rhywun, ffoniwch Macmillan am ddim ar **0808 808 00 00** neu ewch i **macmillan.org.uk**